

Bwrdd Iechyd Hywel Dda

**Arolygiad Dirybudd o Urddas
a Gofal Hanfodol**

**Dyddiad yr arolygiad
24 a 25 Mehefin 2012**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
CAERFFILI
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 029 20 928850
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 20 928877
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

Pennod	Rhif y Dudalen
1. Cyflwyniad	1
2. Canfyddiadau	3
Ward Iorwerth – Meddygol Acíwt Cyffredinol.....	3
Ward Ceredig – Orthopedeg, Llawdriniaeth Cyffredinol a'r Colon a'r Rhefr	12
3. Argymhellion.....	20
4. Casgliad.....	26
5. Y Camau Nesaf	27
Atodiad A – Y Cefndir a'r Fethodoleg ar gyfer yr Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol	28
Atodiad B – Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	31
Atodiad C – Themâu Urddas a Gofal Hanfodol, Hawliau Dynol a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd yng Nghymru	33

1. Cyflwyniad

1.1 Mae erthygl tri o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn dweud na ddylai neb gael ei drin mewn ffordd annynol neu ddiraddiol¹. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau cyhoeddus yn y DU – gan gynnwys holl wasanaethau'r GIG – i drin pobl yn deg a chyfartal, ag urddas a pharch. Mae urddas hefyd yn un o bum egwyddor y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn, ac mae'n egwyddor allweddol sy'n sail i Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Yn 2007, lansiodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen '*Urddas mewn Gofal*' ar gyfer Cymru, sef menter sydd â'r nod o sicrhau na oddefir unrhyw achos o gam-drin pobl hŷn ac o ddiffyg parch tuag atynt yn y system iechyd a gofal cymdeithasol.

1.2 Yng nghyd-destun deddfwriaeth hawliau dynol y DU a rhyngwladol, a pholisi Llywodraeth Cymru, cychwynnodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) raglen o '*Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol*' dirybudd ym mis Rhagfyr 2011 i adolygu'r gofal a roddir i bobl mewn ysbytai ledled Cymru, gan roi sylw arbennig i bobl hŷn. Mae'r rhaglen hon yn dilyn Archwiliadau ar Hap AGIC o Urddas a Pharch a gynhaliwyd yn ystod 2009 a 2010².

1.3 Mae'r '*Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol*' yn adolygu'r ffordd y cynhelir urddas claf mewn ward ysbyty, a'r gofal nyrsio sylfaenol a dderbynnir gan y claf. Cesglir gwybodaeth trwy siarad â chleifion, perthnasau a staff, trwy adolygu cofnodion meddygol cleifion, a thrwy arsylwi. Mae mwy o wybodaeth am sut y cynhelir yr arolygiadau ar gael yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

1.4 Mae'r arolygiadau'n rhoi 'cipolwg' o'r gofal a dderbynnir gan gleifion ar wardiau ysbyty, ac fe allent amlygu materion ehangach yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch gofal hanfodol ac urddas.

¹ Mae '*triniaeth annynol*' yn golygu triniaeth sy'n achosi niwed meddyliol neu gorfforol difrifol, ac mae '*triniaeth ddiraddiol*' yn golygu triniaeth sy'n ddybryd o fychanol a diurddas.

² I gael mwy o wybodaeth am Archwiliadau Urddas a Pharch ar Hap 2009-2010, ewch i <http://www.hiw.org.uk/page.cfm?orgid=477&pid=47582>

1.5 Ar 24 a 25 Mehefin 2012, cynhaliodd AGIC ymweliad Urddas a Gofal Hanfodol dirybudd ag Ysbyty Cyffredinol Bronglais.

Ysbyty Cyffredinol Bronglais

1.6 Mae Ysbyty Cyffredinol Bronglais wedi'i leoli yn Aberystwyth, yn y canolbarth. Ceir tua 200 o welyau yn yr ysbyty ac mae'n darparu amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleusterau i gleifion mewnol a chleifion allanol, gwasanaethau iechyd meddwl yn ogystal â chyfleusterau Damweiniau ac Achosion Brys a Diagnostig.

1.7 Ymwelwyd â dwy ward yn rhan o'r arolygiad; Ward Iorwerth, sy'n ward feddygol aciwt gyffredinol a Ward Ceredig sy'n arbenigo mewn Orthopedeg, Llawdriniaeth Gyffredinol a'r Colon a'r Rhefr.

2. Canfyddiadau

2.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau ein hymweliad.

Ward Iorwerth Meddygol Aciwt Cyffredinol

2.2 Yn gyffredinol, roedd y ward yn ymddangos yn hamddenol ac yn dawel. Roedd y staff nyrsio yn amlwg ar y ward, ac fe'u harsylwyd yn gofalu am gleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Fodd bynnag, roedd amgylchedd clinigol y ward yn orlawn a chodwyd pryderon am arweinyddiaeth weledol ar gyfer y ward.

Amgylchedd y Ward

2.3 Roedd y cleifion y siaradwyd â hwy ar y ward yn gadarnhaol ac yn canmol glendid y ward. Fodd bynnag, gwelsom yn gyffredinol nad oedd lefel y glanweithdra'n ddigon da. Gwelwyd baw ar y llawr, ar y waliau ac ar y drysau ac roedd llwch ar offer y ward hefyd, gan gynnwys y troli ataliad ar y galon yn y prif goridor. Roedd amserlenni glanhau wedi'u cofnodi ond nid oedd yr holl amserlenni'n gyflawn ac nid oedd yn amlwg a oedd y gwaith glanhau wedi ei wneud ai peidio. Er enghraifft, roedd yn eglur o'n harsylwadau nad oedd llawr cegin y ward wedi cael ei lanhau ers nifer o ddiwrnodau er y cofnodwyd i'r gwrthwyneb.

2.4 Roedd diffyg lle storio ar gael, sy'n arwain at lawer o annibendod yn y prif goridor i'r ward. Hefyd, nid oedd y cypyrddau clo sydd ar gael i gleifion storio eitemau yn ddigonol, ac roedd y cleifion yn defnyddio bagiau plastig i storio eu heiddo.

2.5 Roedd llenni yn cael eu cau'n gyfan gwbl o amgylch y gwelyau pan roedd triniaeth yn cael ei darparu ac roedd arwyddion urddas wedi'u gwneio ar y llenni ar y ward i hysbysu pobl bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu y tu ôl iddynt pan roeddent wedi'u tynnu.

2.6 Roedd y toiledau ar y ward wedi'u neilltuo ar gyfer dynion neu fenywod gydag arwyddion eglur i ddynodi hyn i'r cleifion. Fodd bynnag, dim ond dau doiled oedd ar gael ar y ward.

2.7 Nid oedd ystafell ddydd ar gael i gleifion.

2.8 Nodwyd bod y drws tân ar y ward yn arwain at risiau agored a allai beryglu diogelwch cleifion, a chleifion dryslyd yn arbennig, ac roedd hyn yn peri pryder i ni. Pan godwyd y mater hwn gennym gydag aelodau staff ar y ward, fe'n hysbyswyd bod drws yr allanfa dân yn cael ei gloi i atal unrhyw gleifion dryslyd rhag agor y drws at y grisiau. Nid yw hyn yn briodol ac nid yw'n cydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch.

Agwedd ac Ymddygiad y Staff, a'u Gallu i Ddarparu Gofal ag Urddas

2.9 Roedd y cleifion y siaradwyd â hwy yn gadarnhaol iawn am agwedd aelodau'r staff ac fe welsom aelodau staff yn sgwrsio â chleifion mewn ffordd hynod gwrtais a gofalgar a chyda chydymdeimlad. Gwelwyd aelodau staff nyrsio, a'r gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn benodol, yn gofalu am gleifion mewn ffordd lawn cydymdeimlad.

2.10 Fodd bynnag, gwelsom rai aelodau staff yn cyfarch cleifion gan ddefnyddio enwau fel 'sunshine' ac 'young man' a allai fod yn sarhaus i rai cleifion, er ei fod wedi'i fwriadu mewn ffordd garedig.

2.11 Gwelsom aelodau staff yn bod yn ystyriol yn ystod trafodaethau sensitif â chleifion. Fodd bynnag, gwelsom aelodau staff hefyd yn trafod cyflwr cleifion yn agored mewn rhannau cyhoeddus o'r ward ar sawl achlysur.

2.12 Roedd yr aelodau staff y siaradwyd â hwy o'r farn bod y lefelau staffio a'r gymysgedd sgiliau yn foddhaol ar y ward. Fodd bynnag, nodwyd pryderon gan nifer o aelodau'r staff nyrsio nad oedd yr Uwch Reolwyr yn amlwg iawn ar y ward uwchben lefel rheolwr y ward.

2.13 Ni welwyd bod pob aelod o staff ar y ward yn gwisgo bathodynau enw fel y gellid eu hadnabod.

Rheoli Cleifion Dryslyd Neu Sydd â Dementia

2.14 Ar adeg ein hymweliad, nid oedd unrhyw fentrau ar waith ar y ward yn ymwneud â rheoli cleifion dryslyd neu sydd â dementia. Fodd bynnag, roedd poster wedi'i arddangos yn nodi'r Cynllun Pili-pala³ a dywedwyd wrthym y bydd yn cael ei roi ar waith ar y ward.

2.15 Gwelsom aelodau staff yn dangos agwedd ac ymddygiad caredig tuag at gleifion â dementia ar y ward.

2.16 Nid oedd lluniau mawr ar y drysau i gyfleusterau'r cleifion, er mwyn cynorthwyo cleifion, ac yn enwedig cleifion â dementia, i ddod o hyd iddynt.

Cynllunio a Darparu Gofal

2.17 Roedd cynlluniau gofal craidd wedi'u sefydlu ar gyfer cleifion ar y ward; fodd bynnag, nid oedd nifer o'r cynlluniau gofal a welsom yn gyflawn, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth eu bod wedi cael eu gwerthuso neu eu hadolygu. Hefyd, nid oedd y cynlluniau gofal wedi'u haddasu i gynnwys a diwallu anghenion penodol y claf unigol.

2.18 Rydym yn cydnabod bod llawer o gleifion ar y ward â phroblemau difrifol ac roedd y mwyafrif yn derbyn gofal yn eu gwelyau; fodd bynnag, roeddem o'r farn y gallai aelodau staff fod wedi annog a chynorthwyo nifer o'r cleifion hyn i symud i'r cadeiriau wrth eu gwelyau.

2.19 Gwelsom Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn cymryd darlleniad lefel siwgr gwaed claf, a ddangosodd bod y claf angen sylw ychwanegol. Er iddo gofnodi'r

³ Mae'r Cynllun Pili-pala yn galluogi pobl y mae dementia wedi cael effaith barhaol ar eu cof i wneud hyn yn eglur i aelodau staff yr ysbyty, ac mae'n darparu strategaeth syml ac ymarferol i aelodau staff ddiwallu eu hanghenion.

darlleniad yn nodiadau'r claf, roedd yn peri pryder i ni na roddodd wybod i nyrs gofrestredig am awr arall. Nid oedd yr aelod o staff yn ymwybodol o frys y mater.

2.20 Sylwyd hefyd nad oedd claf diabetig ar inswlin wedi cael ei atgyfeirio i ddietydd.

Rheoli Cofnodion

2.21 Roedd cofnodion cleifion ar wasgar gan y cedwir nodiadau cleifion a chynlluniau gofal ar wahân, sy'n ei gwneud yn anodd eu deall. Hefyd, gwelsom nifer o gofnodion cleifion yn cael eu cadw ar waelod eu gwelyau. Roedd y mwyafrif ohonynt yn gyfredol ac yn cael eu cwblhau'n syth ar ôl darparu gofal a thriniaeth, ond nodwyd rhai cofnodion anghyflawn gennym.

2.22 Adolygwyd nifer o gofnodion cleifion gennym lle nodwyd na ddylid ceisio dadebru. Roedd yr holl gofnodion a welwyd yn cynnwys y ffurflen briodol wedi'i chwblhau'n llawn.

Hylif a Maeth

2.23 Roedd amseroedd prydau bwyd wedi eu diogelu ar waith ar y ward ac anogir aelodau teuluoedd i ymweld â'r ward i gynorthwyo eu perthynas ar adegau prydau bwyd. Rhoddwyd cymorth i'r holl gleifion yr oedd arnynt ei angen.

2.24 Gwelsom fod amseroedd prydau bwyd ar y ward yn cael eu cyfeirio a'u rheoli gan Weithwyr Cymorth Gofal lechyd heb unrhyw gyfraniad gan y Nyrsys Cofrestredig.

2.25 Roedd cleifion yn cael eu gosod i eistedd yn briodol cyn dod â'r bwyd iddynt, ac roedd hambyrddau'n cael eu rhoi mewn man priodol i'w gwneud yn haws i gleifion fwyta. Fodd bynnag, ni welsom yr holl gleifion yn cael cynnig nac yn cael eu cynorthwyo i eistedd allan o'u gwelyau i fwyta eu bwyd pe baent yn dymuno gwneud hynny.

2.26 Nodwyd gennym mai aelodau staff domestig oedd yn casglu'r hambyrddau bwyd, gan olygu na wneir unrhyw asesiad o faint o fwyd y mae'r cleifion yn ei gymryd. Fe'n hysbyswyd gan aelodau staff mai aelodau staff domestig sy'n casglu hambyrddau cleifion ar ôl prydau bwyd fel rheol.

2.27 Gwelsom fod hambyrddau a jygiau coch yn cael eu defnyddio gan aelodau staff ar y ward. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau ag aelodau staff, daeth yn amlwg bod dryswch ynglŷn â diben y fenter hambwrdd/jwg goch gan fod y fenter ar y ward wedi ehangu cymaint nad oedd yn cael ei defnyddio i nodi cleifion sydd ag angen cymorth i fwyta neu yfed. Gwelsom un claf â hambwrdd coch a oedd yn bwyta heb gymorth tra bod claf nesaf ato â hambwrdd brown yn cael ei gynorthwyo i fwyta gan aelod o staff.

2.28 Dywedodd yr holl gleifion y siaradwyd â hwy eu bod yn mwynhau eu prydau, gan nodi bod y bwyd a ddarperir ar y ward yn dda.

2.29 Nid oedd unrhyw asesiadau maeth ar gael yng nghofnodion y cleifion yr edrychwyd arnynt.

2.30 Roedd dŵr a chwpanau glân ar gael i'r cleifion. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhai o jygiau dŵr a chwpanau'r cleifion o fewn eu cyrraedd.

2.31 Roedd Siart Bwyd Cymru Gyfan yn cael ei defnyddio ar y ward; fodd bynnag, roedd y siartiau yr edrychwyd arnynt yn nodiadau'r cleifion yn anghyflawn. Gwelwyd tystiolaeth yn nodiadau'r cleifion bod siartiau hylif yn cael eu cwblhau. Er hynny, gwelwyd wrth adolygu nodiadau un claf ar y ward iddo dderbyn hylif ddiwethaf am 06:00, sef 200ml o de. Nid oedd y claf wedi cael cynnig rhagor o hylif ers hynny ar yr adeg yr oeddem ni'n adolygu ei nodiadau (12:25). Wrth drafod ag aelodau staff ar y ward, fe'n hysbyswyd nad ydynt yn gwbl hyderus bod siartiau hylif yn gywir bob amser gan nad oedd pob aelod o staff yn eu cwblhau fel mater o drefn.

Briwiau Pwyso

2.32 Yn ystod ein hamser ar y ward, gwelsom gleifion yn cael eu troi'n rheolaidd ac archwiliadau o fannau pwyso'n cael eu cofnodi ar siartiau wrth y gwelyau. Roedd bwndeli SKIN⁴ ar waith hefyd a oedd wedi'u cofnodi'n dda iawn, yn gyfredol ac yn cael eu gwerthuso.

2.33 Roedd asesiadau risg ar gael ar gyfer cleifion a allai ddatblygu briwiau pwyso ac mae'r holl gleifion sydd angen matres lleddfu pwysau yn derbyn un. Roedd y ward hefyd yn defnyddio croesau diogelwch a sgoriau Darogan Briwiau Pwyso (PSPS) i fonitro briwiau pwyso. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd rhai o'r PSPSau a'r croesau diogelwch yn gyfredol. Hefyd, daeth yn amlwg wrth drafod ag aelodau staff ar y ward nad oedd aelodau staff yn ymwybodol y dylai wlserau pwyso o raddfa benodol arwain at atgyfeiriad Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed.

Gofal a Hylendid Personol

2.34 Roedd mwyafrif y cleifion i'w gweld yn derbyn gofal da, ac roedd yn ymddangos bod eu hanghenion gofal a hylendid personol wedi cael eu diwallu. Fodd bynnag, gwelsom un claf y nodwyd nad oedd i gael 'dim trwy'r geg' ac a oedd yn derbyn gofal hylendid geneuol gan aelodau staff bob chwe awr. Roedd yn amlwg bod ar y claf hwn angen gofal hylendid geneuol yn amlach. Hefyd, nodwyd claf arall gennym a dderbyniwyd i'r ward ar ôl colli pwysau'n ddifrifol; ond ni chafodd ei bwysu pan gafodd ei dderbyn ar y ward.

2.35 Roedd gofal hylendid geneuol yn cael ei ddarparu i gleifion; fodd bynnag, roedd yn cael ei gofnodi ar y siart cydbwysedd hylif yn hytrach na chynllun gofal y cleifion.

2.36 Roedd y cleifion yn gwisgo eu dillad eu hunain, ac roedd y rhain yn ymddangos yn lân. Fe'n hysbyswyd gan y cleifion y siaradwyd â hwy eu bod yn gallu ymolchi (gyda neu heb gymorth) mor aml ag y maent yn dymuno a bod

⁴ Dull holistaidd syml sy'n sicrhau bod pob claf yn derbyn y gofal priodol i atal briwiau pwyso.

aelodau'r staff nyrsio yn eu cynorthwyo i ddiwallu anghenion gofal personol eraill. Cynigir gofal hylendid deintyddol i'r cleifion yn ystod y broses ymolchi â chymorth hefyd.

2.37 Roedd gynau urddas ar gael i'r cleifion; fodd bynnag, dywedwyd wrthym mai dim ond dewis o ddau ŵn oedd ar gael ac nad oedd gynau urddas ar gael y gellir eu clymu ar yr ochr. Dywedodd aelodau staff fod yn rhaid iddynt ddefnyddio dau ŵn ar gyfer cleifion ar hyn o bryd, y ffordd groes i'w gilydd, i sicrhau urddas cleifion.

2.38 Darparwyd llineiau gwlyb i'r cleifion gyda'u prydau bwyd, er mwyn golchi eu dwylo, ond ni welsom aelodau staff yn eu hannog i ddefnyddio'r rhain cyn bwyta eu prydau bwyd.

Anghenion o Ran Mynd i'r Tŷ Bach

2.39 Yn ystod ein hamser ar y ward, gwelsom badelli gwely a chomodau yn cael eu rhoi i gleifion yn brydlon. Gwelsom gleifion hefyd yn cael eu cynorthwyo i fynd i'r tŷ bach a dod yn ôl, ond dim ond ychydig o weithiau y gwelwyd hyn.

2.40 Gwelsom glaf yn derbyn comôd i'w ddefnyddio yng nghilfach y claf ar adeg pryd bwyd. Mae'r dull hwn o ddefnyddio'r toiled ar adeg pryd bwyd yn dangos diffyg urddas ac yn amhriodol, gan fod y claf yn gallu mynd i'r toiledau gyda chymorth aelodau'r staff nyrsio.

2.41 Ni welwyd unrhyw dystiolaeth bod asesiadau ymataliaeth yn cael eu cynnal na bod nyrs ymataliaeth yn cyfrannu at ofal y cleifion.

Seinyddion

2.42 Roedd seinyddion ar gael yn nhoiledau ac ystafelloedd ymolchi'r cleifion ac roedd pob un ohonynt yn gweithio. Gwelsom seinyddion cleifion yn cael eu hateb yn brydlon yn ystod ein hamser ar y ward, a dywedodd y cleifion y siaradwyd â hwy fod aelodau staff yn ymateb i seinyddion yn gyflym. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd pob seinydd o fewn cyrraedd rhwydd i'r cleifion.

Cyfathrebu

2.43 Roedd y cleifion i ni siarad â hwy yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r modd y mae aelodau'r staff nyrsio yn cyfathrebu â hwy ar benderfyniadau am ofal a thriniaeth. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd unrhyw ddulliau cyfathrebu arbenigol fel Braille neu ddolenni sain ar gael i gynorthwyo cleifion â nam ar y synhwyrau ar y ward.

Rheoli Meddyginiaethau a Rheoli Poen

2.44 Ni chodwyd unrhyw broblemau o ran rheoli poen gan y cleifion y siaradwyd â hwy ar y ward. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd unrhyw ddulliau asesu poen (mesuriadau o ddifrifoldeb poen) ar gael ar y ward.

2.45 Roeddem yn falch o weld bod yr aelodau staff a oedd yn cynnal y rownd feddyginiaeth yn gwisgo tabardau coch er mwyn hysbysu eraill na ddylid tarfu arnynt. Fodd bynnag, gwelsom un nyrs yn cael ei rhwystro ac yn cael sgwrs ag aelod arall o'r staff yn ystod y rownd feddyginiaeth, sy'n mynd yn groes i resymeg y tabardau.

2.46 Caiff y cypyrddau meddyginiaeth ar y ward eu cloi i atal unrhyw bersonél heb awdurdodiad neu gleifion rhag cael atynt. Fodd bynnag, roedd bin yn dal drws yr ystafell feddyginiaeth ar agor, ac er bod y feddyginiaeth wedi'i storio'n ddiogel, byddai unrhyw un a âi i mewn i'r ystafell yn gallu cael gafael ar nodwyddau a chwistrellau.

2.47 Nodwyd bod tabledi yn cael eu gadael ar fyrddau'r cleifion mewn rhai achosion, sy'n peri pryder. Mewn un achos daeth ein hadolygwr o hyd i dabled a oedd wedi cwmpo ar y llawr o dan y bwrdd wrth ochr gwely claf diabetig. Rhoddwyd y dabled yn ôl ar unwaith i'r Nyrs Gofrestredig a oedd yn cynnal y rownd feddyginiaeth.

2.48 Wrth i ni adolygu cofnodion meddygol y cleifion ar y ward, nodwyd bylchau mewn gwybodaeth heb i unrhyw reswm fod wedi ei roi. Hefyd, cofnodwyd yn

nodiaid un claf bod ymholiad pa a oedd wedi cymryd ei meddyginiaeth y diwrnod cynt, gan y canfuwyd tabled mewn pecyn creision ar y bwrdd wrth ochr ei gwely.

Cynllunio ar Gyfer Rhyddhau Cleifion

2.49 Dywedwyd wrthym gan y cleifion y siaradwyd â hwy eu bod wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn â'u rhyddhau o'r ward. Hefyd, ni hysbyswyd ynglŷn ag unrhyw achosion o oedi wrth ryddhau o'r ward yn ddiweddar. Fodd bynnag, cawsom wybod wrth drafod ag aelodau staff ar y ward y ceir pryderon ynglŷn ag oedi wrth ryddhau cleifion weithiau oherwydd amserlenni'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gweithgareddau

2.50 Gall gweithgareddau hamdden a gynhelir ar wardiau ysbyty (gan gynnwys gemau bwrdd, cardiau a bingo) roi cyfle i gleifion wella ansawdd eu bywyd trwy deimlo bod ganddynt fwy o reolaeth a chefnogaeth gymdeithasol, a thrwy iddynt gymdeithasu mwy a chyflawni amcanion sy'n canolbwyntio ar gwblhau gorchwylion. Gall hyn hefyd helpu pobl sy'n agored i niwed ddatblygu neu ailsefydlu sgiliau cymdeithasol mewn amgylchedd a reolir. Mae gwaith ymchwil⁵ wedi dangos bod gweithgareddau a gynhelir ar wardiau ysbyty yn cael amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol ar gleifion mewnol, gan gynnwys:

- Peri newidiadau ffisiolegol a seicolegol cadarnhaol mewn canlyniadau clinigol.
- Lleihau'r defnydd o gyffuriau.
- Cwtogi hyd arhosiad yn yr ysbyty.
- Hybu perthynas well rhwng meddygon a chleifion.
- Gwella iechyd meddwl.

2.51 Fel y nodwyd yn flaenorol, nid oedd ystafell ddydd ar y ward ac nid oedd unrhyw weithgareddau difyr ar gael i'r cleifion ar y ward. Nid oedd setiau teledu'n cael eu defnyddio chwaith, na rownd papurau newydd. Fe'n hysbyswyd gan y

⁵ Cymdeithas Feddygol Prydain, *'The psychological and social needs of patients,'* mis Ionawr 2011.

nyrsys a'r cleifion y siaradwyd â hwy y byddent yn croesawu rhagor o weithgareddau.

Ward Ceredig Orthopedeg, Llawdriniaeth Gyffredinol a'r Colon a'r Rhefr

2.52 Yn gyffredinol, roedd y ward yn gyfeillgar ac yn broffesiynol. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynglŷn ag arweinyddiaeth y ward, ac amlygwyd y rhain gan ein harsylwadau a'n trafodaethau ag aelodau staff ar y ward.

Amgylchedd y Ward

2.53 Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y ward yn lân, ac roedd yr holl gleifion y siaradwyd â hwy yn gadarnhaol ynglŷn â glendid y ward. Fodd bynnag, nodwyd y problemau amgylcheddol canlynol gennym:

- Difrod i'r llawr ar un ochr i goridor y ward, ar ochr orthopedig y ward. Fe'n hysbyswyd, wrth drafod ag aelodau staff, y tynnwyd sylw aelod uwch o staff at hyn ddau fis cyn ein harolygiad, ond nad oedd y llawr wedi cael ei drwsio o hyd.
- Rheilen law ar goll yn y coridor ar ochr orthopedig y ward.
- Tystiolaeth o baent a budreddi ar rai o handlenni'r drysau ar y ward.

2.54 Roedd toiledau'r cleifion wedi'u neilltuo ar gyfer dynion neu fenywod ac roedd y cloeon yn gweithio. Fodd bynnag, dim ond un toiled i ddynion ac un toiled i fenywod oedd ar gael ar y ward.

2.55 Roedd arwyddion urddas wedi'u gwnïo i'r llenni ar y wardiau i ddynodi i eraill bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu y tu ôl i'r llenni caeedig; fodd bynnag, dywedodd aelodau staff ar y ward wrthym eu bod wedi canfod bod y llenni braidd yn ddisylwedd.

2.56 Roedd ystafell ddydd ar gael ac ynddi gylchgronau a theledu, a gwelsom rai cleifion yn defnyddio'r ystafell hon.

Agwedd, Ymddygiad a Gallu'r Staff i Ddarparu Gofal ag Urddas

2.57 Gwelsom aelodau staff ar y ward, a'r Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn benodol, yn dangos agwedd lawn cydymdeimlad at gleifion ar y ward ac yn gweithio ar eu liwt eu hunain i wella'r gofal y mae cleifion yn ei dderbyn ar y ward.

2.58 Fe'n hysbyswyd gan yr holl gleifion y siaradwyd â hwy bod yr aelodau staff ar y ward yn gwrtais tuag atynt hwy a'u teulu a'u ffrindiau. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau staff wrthym eu bod yn teimlo nad oedd yr holl nyrsys ar y ward yn darparu gofal yn gyson a chyda cydymdeimlad.

2.59 Yn gyffredinol, roedd yr aelodau staff yn ceisio bod yn ystyriol wrth gyfathrebu; fodd bynnag, roedd sgysiau yn cael eu cynnal yn y prif goridor ynglŷn â derbyn a rhyddhau cleifion. Hefyd, cyfeiriwyd at gleifion a oedd ar fin cael eu derbyn ar sail natur eu cyflwr yn hytrach na'u henwau e.e.

"Mae dau gymal yn cael eu derbyn yfory."

2.60 Edrychwyd ar y tîm llawdriniaeth yn cynnal rownd ar y ward. Un yn unig o'r 14 meddyg a olchodd ei ddwylo ar unrhyw adeg wrth symud o gwmpas y ward yn ystod y rownd.

2.61 Roedd y lefelau staffio ar ddiwrnod yr arolygiad yn ddigonol ar gyfer y diwrnod hwnnw. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan aelodau staff ynglŷn â'r ffaith bod prinder ar adegau. Codwyd pryderon gan aelodau staff hefyd nad oedd y nyrs arweiniol i'w gweld rhyw lawer, ac roeddent yn teimlo nad oedd yn treulio llawer o amser ar y ward. Yn ystod ein hamser ar y ward, nodwyd gennym hefyd ei bod yn ymddangos nad oedd Prif Nyrs y Ward yn amlwg iawn ychwaith.

2.62 Ceir arwyddion wrth fynedfa'r ysbyty yn hysbysu cleifion ac ymwelwyr na chaniateir ysmegu ar safle'r ysbyty. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod gan aelod o

staff y ward becyn o sigaréts ym mhoced ei gwisg gwaith, gan godi'r pryder ei bod yn ysmegu ar safle'r ysbyty neu'n mynd oddi ar y safle yn ei gwisg gwaith i ysmegu. Hefyd, dywedodd rhai aelodau o staff ar y ward wrthym fod yr aelod hwn o staff yn gadael y ward gydag aelodau eraill o'r staff i gael sigarét y tu ôl i'r ysbyty a bod hyn hefyd yn lleihau nifer aelodau'r staff ar y ward. Codwyd y mater hwn yn ystod y sesiwn adborth, a chadarnhaodd cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd na chaniateir ysmegu ar safle'r ysbyty.

2.63 Gwelsom nad oedd mwyafrif yr aelodau staff ar y ward yn gwisgo bathodynau enw fel y gellid eu hadnabod.

Rheoli Cleifion Dryslyd Neu Sydd â Dementia

2.64 Nid oedd unrhyw fentrau wedi'u sefydlu ar y ward i gynorthwyo aelodau staff i ddarparu gofal i gleifion dryslyd neu sydd â dementia. Dywedodd aelodau staff ar y ward hefyd nad oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant i'w cynorthwyo i ymdrin â chleifion dryslyd neu sydd â dementia.

2.65 Roedd arwyddion cyfleusterau'r cleifion ar y ward, megis toiledau ac ystafelloedd ymolchi, yn fach ac nid oeddent yn ddigon amlwg i gleifion, ac yn enwedig cleifion dryslyd neu sydd â dementia.

Cynllunio a Darparu Gofal

2.66 Roedd asesiadau a chofnodion cleifion ar gael ar y ward, ond amlygwyd sawl problem:

- Roedd dogfennau asesu achosion o gwmpo ar gael, ond nid oedd y dogfennau'n cael eu cwblhau'n gyson.
- Nid oedd Sgoriau Darogan Briwiau Pwyso (PSPS) yn cael eu cwblhau'n gyson.
- Nid oedd siartiau hylif ar gael i bob claf.

- Roedd siart un claf yn dangos bod gan y claf bwysedd gwaed uchel a gofnodwyd am 22:00, ond ni chymerwyd darlleniad pwysedd gwaed nesaf y claf tan 10:50 y bore wedyn. Ni fu unrhyw fonitro drwy'r nos.

2.67 Roedd cynlluniau gofal craidd cleifion ar gael; fodd bynnag, nid oedd nifer o'r cynlluniau gofal i ni eu harchwilio wedi cael eu hadolygu na'u gwerthuso. Hefyd, nid oedd y cynlluniau gofal a oedd ar waith wedi'u haddasu i gynnwys anghenion penodol y claf, ac nid oedd rhai cynlluniau gofal yn cofnodi enw'r claf.

Rheoli Cofnodion

2.68 Roedd cofnodion meddygol y cleifion ar wasgar ac yn anodd eu dilyn gan eu bod yn cael eu storio mewn gwahanol leoliadau. Er enghraifft: câi asesiadau rhai cleifion eu cadw ar waelod eu gwelyau, ac eraill yng ngorsafoedd y nyrsys. Roedd hyn yn golygu ei bod yn anodd dilyn 'hanes y claf' o'r nodiadau.

2.69 Roedd cynlluniau ac asesiadau gofal y cleifion ar gael, ond nid oedd y cwbl yn cael eu hadolygu gan aelodau staff ar y ward fel mater o drefn.

Hylif a Maeth

2.70 Roedd amseroedd prydau bwyd wedi'u diogelu ar waith ar y ward ac anogir aelodau teuluoedd i ymweld â chleifion ar y ward os bydd ar y claf angen cymorth i fwyta ei fwyd. Fodd bynnag, gwelsom ddwy nyrs staff ar y ward yn cynnal rowndiau meddyginiaeth yn ystod yr amser pryd bwyd wedi'i ddiogelu.

2.71 Yn yr un modd ag ar ward lorwerth, roedd proses yr amser pryd bwyd yn cael ei chyfarwyddo a'i rheoli gan y Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd. Nid oedd y cleifion ar y ward yn cael eu paratoi o gwbl cyn i'r aelodau staff roi eu prydau bwyd iddynt.

2.72 Ni welsom unrhyw dystiolaeth o asesiadau maethgol yn cael eu cynnal ar gyfer cleifion ar y ward.

2.73 Fe'n hysbyswyd bod y system hambwrdd coch ar waith; fodd bynnag, nodwyd gennym na chyrrhaeddodd pryd bwyd un claf ar hambwrdd coch, er i gais am hambwrdd coch gael ei wneud ar ei gyfer. Dywedodd cleifion wrthym fod yr aelodau staff yn cynorthwyo'r cleifion hynny sydd ag angen cymorth i fwyta neu yfed.

2.74 Roedd mwyafrif y cleifion a oedd yn gallu codi o'u gwelyau yn eistedd ar y cadeiriau wrth ochr eu gwelyau i fwyta eu prydau bwyd a dywedodd mwyafrif y cleifion i ni siarad â hwy eu bod yn mwynhau'r bwyd ar y ward. Fodd bynnag, dywedodd un claf wrthym fod y dewis o fwyd i lysieuwyr yn gyfyngedig.

2.75 Yn yr un modd ag ar ward lorwerth, casglwyd hambyrddau'r cleifion gan weithwyr cymorth gofal iechyd ac aelodau staff domestig ar ôl y pryd bwyd. Ni welsom unrhyw siartiau bwyd yn cael eu cwblhau i gofnodi faint o fwyd neu hylif yr oedd y claf wedi'i gymryd.

2.76 Roedd jygiau o ddŵr a chwpanau ar gael i'r cleifion; ni welsom y jygiau'n cael eu newid fodd bynnag.

Briwiau Pwyso

2.77 Roedd bwndeli SKIN ar waith ac wedi'u cofnodi. Gwelsom dystiolaeth hefyd o Sgoriau Atal Briwiau Pwyso (PSPau) yn cael eu cwblhau, ond nid oedd pob un o'r rhain wedi'u cwblhau'n llawn.

2.78 Roedd matresi aer ar gael i gleifion yr aseswyd eu bod mewn perygl o ddatblygu briwiau pwyso. Fodd bynnag, yn yr un modd ag ar ward lorwerth, ni allai'r aelodau staff ar y ward y siaradwyd â hwy adnabod y berthynas rhwng atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed ac achosion o friwiau pwyso.

Gofal a Hylendid Personol

2.79 Roedd y cleifion ar y ward i'w gweld yn derbyn gofal da, ac roedd yn ymddangos bod eu hanghenion gofal a hylendid personol wedi eu diwallu. Roedd mwyafrif y cleifion yn gwisgo eu dillad eu hunain; fodd bynnag, roedd un claf yn

gwisgo gŵn â chefn cwbl agored a oedd yn golygu ei fod wedi'i ddinoethi i eraill ar y ward. Gofynnwyd i'r claf pam roedd yn gwisgo'r gŵn ac a oedd ganddo ei byjamas ei hun i'w gwisgo. Dywedodd wrthym nad oedd yn gwybod pam ei fod mewn gŵn a chadarnhaodd fod ganddo ei byjamas ei hun. Trefnwyd gennym iddo gael ei wisgo yn ei byjamas ei hun ar unwaith.

2.80 Roedd llawer o'r cleifion ar y ward yn annibynnol ac yn gallu diwallu eu hanghenion gofal a hylendid personol eu hunain. Fe'n hysbyswyd gan y cleifion y siaradwyd â hwy eu bod yn gallu glanhau eu dannedd/dannedd gosod mor aml ag yr oeddent yn dymuno. Fodd bynnag, roedd problemau o ran cynllunio gofal personol mewn cynlluniau gofal, gan nad oedd y cynlluniau gofal wedi'u haddasu ac felly nid oeddent yn nodi anghenion penodol y claf.

2.81 Darparwyd lliainiau gwlyb i gleifion ar eu hambyrddau bwyd yn ystod yr amser cinio ar ddiwrnod ein hymweliad; fodd bynnag, nid oedd yr aelodau staff ar y ward yn annog y cleifion i'w defnyddio.

Anghenion o Ran Mynd i'r Tŷ Bach

2.82 Roedd cleifion ar y ward yn gallu dewis sut roeddent yn mynd i'r toiled. Hefyd, gwelsom yr aelodau staff yn cynorthwyo cleifion i fynd i'r tŷ bach a dod yn ôl yn ystod ein hamser ar y ward.

2.83 Yn yr un modd ag ar ward lorwerth, ni welsom unrhyw dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion yr edrychwyd arnynt bod asesiadau ymataliaeth yn cael eu cynnal.

Seinyddion

2.84 Roedd seinyddion ar gael o fewn cyrraedd yr holl gleifion ar y wardiau, a gwelsom aelodau staff ar y ward yn ymateb iddynt yn brydlon. Fe'n hysbyswyd gan y cleifion hefyd bod yr aelodau staff yn ateb eu seinyddion yn brydlon ar ôl iddynt eu defnyddio.

Cyfathrebu

2.85 Roedd aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar y ward, ond wrth drafod â rhai o aelodau'r staff cawsom wybod nad oeddent yn siŵr sut y byddent yn gallu cael gafael ar unrhyw gyfieithwyr i gleifion ar y ward. Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod dulliau cyfathrebu fel dolen sain neu Braille ar gael ychwaith.

2.86 Hoffem gymeradwyo un Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd am gael gafael ar lyfryn, ar ei liwt ei hun ac at ei ddefnydd ei hun, a oedd yn cynnwys manylion iaith arwyddion ac ieithoedd eraill er mwyn gallu cyfathrebu'n well â'r cleifion.

Rheoli Meddyginiaethau a Rheoli Poen

2.87 Ni chodwyd unrhyw broblemau yn ystod trafodaethau â chleifion am reoli poen. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw dystiolaeth bod unrhyw asesiadau poen yn cael eu cynnal.

2.88 Gwelsom un fenyw a oedd wedi dychwelyd i'r ward o'r theatr yn dweud wrth nyrs dan hyfforddiant ei bod mewn poen. Rhoddodd y nyrs dan hyfforddiant wybod i Nyrs Gofrestredig, ond dywedodd y Nyrs Gofrestredig wrth y myfyriwr am fynd yn ôl i gysuro'r claf a dweud wrthi na allai gael mwy o analgesia⁶. Cododd ein hadolygwr y mater hwn â phrif nyrs y ward ar unwaith a gofyn i asesiad poen gael ei gynnal.

2.89 Nid oedd yr aelodau staff a gynhaliodd y rownd feddyginiaeth yn gwisgo tabardau coch i hysbysu eraill na ddylid tarfu arnynt. Hefyd, roedd yr aelodau staff yn cludo'r feddyginiaeth ar droliau gorchuddion clinigol bach yn hytrach nag ar droliau meddyginiaeth. Nodwyd gennym na ellid cloi'r troliau hyn a chwmpodd y feddyginiaeth ar waelod un o'r troliau i ffwrdd ar un pwynt, oherwydd nad oedd digon o le. Ers yr arolygiad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ein hysbysu bod troli cyffuriau newydd wedi cael ei archebu, ac na fydd y troliau presennol yn cael eu gorlenwi na'u gadael heb oruchwyliaeth ar unrhyw adeg nes i'r un newydd gyrraedd.

⁶ Unrhyw aelod o'r grŵp o gyffuriau a ddefnyddir i leddfu poen yw analgesia.

2.90 Roedd yn rhaid rhoi'r cod allwedd yn y clo ar y drws er mwyn mynd i mewn i'r ystafell feddyginiaeth ar y ward. Fodd bynnag, y tu mewn i'r ystafell, gadawyd yr holl gypyrddau â meddyginiaeth ynddynt ar agor (ac eithrio'r cwpwrdd cyffuriau a reolir), gan olygu bod perygl y gallai aelodau staff nad ydynt yn gymwysedig neu gleifion hyd yn oed, gael gafael ar y feddyginiaeth. Ers yr arolygiad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi gwybod i ni yr hysbyswyd y ward i sicrhau y caiff yr holl gypyrddau sydd â meddyginiaeth ynddynt eu cloi bob amser ac y cedwir drws yr ystafell ar glo. Ychwanegodd fod hyn wedi'i adolygu a'i fod yn digwydd bellach, ac y bydd aelodau Uwch y staff Nyrsio yn cynnal hap-archwiliadau i gadarnhau y cydymffurfir yn barhaus.

Cynllunio ar Gyfer Rhyddhau Cleifion

2.91 Ar adeg ein hymweliad, ni ystyriwyd bod unrhyw gleifion yn dioddef Oedi Wrth Drosoglwyddo Gofal ac fe'n hysbyswyd gan y cleifion y siaradwyd â hwy eu bod yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau ag aelodau'r staff ynglŷn â phryd y gallent ddisgwyl gadael y ward.

2.92 Roedd rhestrau cyfeirio ar gyfer rhyddhau cleifion ar gael yn nodiadau'r cleifion; fodd bynnag, nid oeddent yn cael eu cwblhau'n gyson gan aelodau staff ar y ward.

Gweithgareddau

2.93 Roedd ystafell ddydd ar gael i gleifion ac ynnddi set deledu a chylchgronau. Gwelsom nifer o gleifion yn defnyddio'r ystafell yn ystod ein hymweliad. Roedd troli papurau newydd yn ymweld â'r ward hefyd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddifyrrwch neu weithgareddau eraill i'r cleifion gymryd rhan ynddynt yn ystod eu cyfnod ar y ward.

3. Argymhellion

3.1 O ystyried y canfyddiadau sy'n deillio o'r adolygiad hwn, rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

Amgylchedd y Ward

3.2 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod systemau ar waith i gynnal glanweithdra o lefel dderbyniol ar y wardiau.

3.3 Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu amgylchedd ward Ceredig er mwyn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â'r materion a amlygir yn yr adroddiad hwn.

3.4 Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu trefniadau storio ar y wardiau er mwyn sicrhau bod cyflenwadau/offer y ward ac eiddo'r cleifion yn cael eu storio'n briodol.

3.5 Dylai'r Bwrdd lechyd gynnal asesiad o'r toiledau ar ward lorwerth mewn partneriaeth â'r adran ystadau a defnyddwyr gwasanaeth.

3.6 Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r allanfa dân ar ward lorwerth o ran gofynion iechyd a diogelwch a pheryglon i gleifion a allai grwydro oherwydd eu bod yn ddryslyd.

Agwedd, Ymddygiad a Gallu'r Staff i Ddarparu Gofal ag Urddas

3.7 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod aelodau staff yn derbyn hyfforddiant ym maes gofal ag urddas.

3.8 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod aelodau staff yn cael eu hatgoffa bod yn rhaid i bob cyfarfyddiad wyneb yn wyneb â chleifion fod yn barchus, yn enwedig wrth gyfeirio at enwau a theitlau cleifion.

- 3.9 Dylai'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd disgrisiwn wrth drafod gwybodaeth sensitif.
- 3.10 Dylai'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd annog a chynorthwyo cleifion sy'n gallu symud o'u gwelyau.
- 3.11 Dylai'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod yr holl aelodau staff ar y ward yn gwisgo bathodynau enw er mwyn i'r cleifion gael gwybod pwy ydynt pan fyddant ar ddyletswydd.
- 3.12 Dylai'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd golchi eu dwylo wrth symud o glaf i glaf ar wardiau.
- 3.13 Dylai'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod Arweinyddiaeth Uwch Nyrsys yn amlwg ar y wardiau.
- 3.14 Dylai'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod Prif Nyrsys Wardiau yn neilltuo cyfnodau trwy gydol y diwrnod i'w treulio ar y ward gydag aelodau staff i'w hebrwng ac i ymateb i unrhyw ymholiadau.

Rheoli Cleifion Dryslyd Neu Sydd â Dementia

- 3.15 Dylai'r Bwrdd Iechyd Sicrhau y rhoddir cyfle i aelodau staff ddatblygu eu gwybodaeth am gleifion dryslyd/sydd â dementia.
- 3.16 Dylai'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod arwyddion mawr ar gael ar gyfleusterau cleifion i gynorthwyo cleifion i ddod o hyd iddynt.

Cynllunio a Darparu Gofal

- 3.17 Dylai'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod yr holl asesiadau cleifion yn cael eu cwblhau'n llawn a'u cofnodi fel mater o drefn.

3.18 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gan yr holl gleifion gynllun gofal sydd wedi'i addasu i anghenion cleifion penodol a bod y cynlluniau gofal hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

3.19 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod systemau dogfennau nyrsio eglur ar gael ar wardiau fel bod modd cael gafael yn rhwydd ar agweddau ar y cofnodion sy'n ymwneud ag asesu, cynllunio gofal a gwerthuso.

3.20 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o bwysigrwydd hysbysu aelod uwch o staff ynglŷn â chleifion sydd ag angen sylw ychwanegol.

3.21 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob claf ar inswlin yn derbyn asesiad a gofnodir ar gyfer atgyfeiriad i ddietydd.

Hylif a Maeth

3.22 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod nyrs gofrestredig ar bob shifft yn goruchwylio'r amseroedd prydau bwyd a/neu yn atebol am y ffordd y bydd amseroedd prydau bwyd yn cael eu cynnal.

3.23 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod amrywiaeth o ddewisiadau llysieuol ar gael i gleifion adeg prydau bwyd.

3.24 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu gosod i eistedd yn briodol cyn amseroedd prydau bwyd ar wardiau.

3.25 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i godi o'u gwelyau i fwyta eu prydau bwyd pan fo modd.

3.26 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod aelodau priodol o staff yn casglu hambyrddau cleifion ar ôl prydau bwyd er mwyn gallu cofnodi ac asesu faint o fwyd y mae'r cleifion wedi'i gymryd.

3.27 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau y darperir hylif sydd o fewn eu cyrraedd i'r holl gleifion a bod aelodau staff yn annog cleifion i yfed fel mater o drefn.

3.28 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod jygiau o ddŵr yn cael eu hail-lenwi i gleifion ar y wardiau fel mater o drefn.

3.29 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol o ddiben cywir y fenter hambwrdd/jwg goch i gynorthwyo cleifion i fwyta ac yfed.

3.30 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod siartiau bwyd a diod yn cael eu cwblhau fel mater o drefn.

3.31 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol y dylid cynorthwyo cleifion i godi a defnyddio toiledau'r ward pan fo modd.

3.32 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn asesiad maethegol sy'n cael ei gwblhau'n llawn a'i ddiweddarau.

Briwiau Pwyso

3.33 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o broses atgyfeirio Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed, a'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio yng nghyd-destun graddio briwiau pwyso.

3.34 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl groesau diogelwch yn cael eu cwblhau a'u diweddarau'n rheolaidd gan aelodau staff.

3.35 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod Sgoriau Atal Briwiau Pwyso (PSPau) y cleifion yn cael eu cwblhau a'u diweddarau'n rheolaidd gan aelodau staff.

Gofal a Hylendid Personol

3.36 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau yr anogir yr holl gleifion i olchi eu dwylo cyn amseroedd prydau bwyd ar y ward.

3.37 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl gleifion wedi gwisgo yn eu dillad eu hunain pan fo modd.

3.38 Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu safonau gofal geneuol, yn enwedig ar gyfer asesiadau a chofnodion geneuol.

Anghenion o Ran Mynd i'r Tŷ Bach

3.39 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod unrhyw glaf yr aseswyd bod ganddo broblemau ymataliaeth yn derbyn asesiad manylach ac y sefydlir cynllun gofal priodol.

Seinyddion

3.40 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod seinydd pob claf yn aros o fewn cyrraedd y claf.

Cyfathrebu

3.41 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cymhorthion cyfathrebu ar gael ar wardiau i gynorthwyo cleifion â nam ar y synhwyrâu.

Rheoli Meddyginiaeth a Rheoli Poen

3.42 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau y cynhelir asesiad poen yn syth ar ôl nodi bod claf mewn poen, ac y rhoddir cynllun gweithredu ar waith sy'n cael ei adolygu a'i werthuso'n rheolaidd.

3.43 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod aelodau staff sy'n cynnal rowndiau ward yn gwisgo tabardau coch i hysbysu eraill nad ddylid tarfu arnynt a bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol na ddylid tarfu arnynt yn ystod y rownd feddyginiaeth.

3.44 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod dulliau ar waith i wneud yn siŵr bod cleifion yn cymryd eu meddyginiaeth pan y'i rhoddir iddynt ac nad yw felly'n cael ei gadael heb oruchwyliaeth ar y cypyrddau wrth ochr gwelyau cleifion.

3.45 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i liniaru'r perygl y gallai cleifion a phersonél heb awdurdodiad gael mynediad at feddyginiaeth neu offer meddyginiaeth.

Gweithgareddau

3.46 Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried ffyrdd o gynnig gweithgareddau ac ysgogiad i gleifion trwy gydol eu cyfnod yn yr ysbyty.

4. Casgliad

4.1 Yn gyffredinol yn ystod ein hamser ar y ddwy ward, dangosodd yr aelodau staff agwedd sensitif a phroffesiynol tuag at gleifion. Gwelsom aelodau staff ar y ddwy ward, a'r Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn benodol, yn darparu gofal i gleifion mewn ffordd a oedd yn llawn cydymdeimlad. Roedd y cleifion y siaradwyd â hwy ar y ddwy ward hefyd yn gadarnhaol iawn ynglŷn ag agwedd yr aelodau staff a'u hymddygiad tuag atynt.

4.2 Amlygwyd nifer o feysydd i'w gwella yn ystod ein harolygiad, gan gynnwys:

- Nodwyd bod glanweithdra ward lorwerth yn peri pryder a bod annibendod drwy'r ward a llwch ar loriau, waliau a drysau.
- Nodwyd nifer o risgiau ar y ddwy ward o ran mynediad personél heb awdurdodiad a chleifion at feddyginiaeth.
- Roedd tystiolaeth o asesiadau cleifion ar gael, ond nodwyd gennym nad oedd yr asesiadau hyn yn cael eu cwblhau'n gyson gan aelodau staff.
- Nodwyd gennym nad oedd y cynlluniau gofal wedi'u haddasu ar gyfer y cleifion unigol ar y ddwy ward.

5. Y Camau Nesaf

5.1 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd lunio cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r prif broblemau a amlygwyd, a'i gyflwyno i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai'r cynllun gweithredu nodi'n glir pa bryd a sut y rhoddwyd sylw i'r problemau a nodwyd gennym ar y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy. Dylai hefyd gynnwys amserlenni ar gyfer sicrhau nad yw'r problemau yn cael eu hailadrodd yn unlle arall ar draws y Bwrdd Iechyd.

5.2 Yna, cyhoeddir y cynllun gweithredu hwn ar wefan AGIC a'i fonitro yn rhan o broses fonitro reolaidd AGIC.

5.3 Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddiolch i Fwrdd Iechyd Hywel Dda, yn enwedig y staff ar Wardiau Iorwerth a Cheredig a oedd yn barod iawn i helpu trwy gydol yr Arolygiad.

Y Cefndir a'r Fethodoleg ar Gyfer yr Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol

Yn 2009-2010, cynhaliodd AGIC nifer o 'Archwiliadau Dirybudd ar Hap ynglŷn ag Urddas a Pharch' mewn wardiau ac adrannau a oedd yn darparu gwasanaethau i bobl hŷn â phroblemau iechyd meddwl.

Ar ôl pob un o'r archwiliadau ar hap hyn, gwnaethom ysgrifennu at Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd perthnasol yn esbonio ein canfyddiadau ac yn dwyn sylw at feysydd i'w gwella. Yna, roedd y Bwrdd Iechyd yn darparu 'cynllun gweithredu' i AGIC yn esbonio sut y byddent yn datblygu meysydd yr oeddem wedi nodi bod angen eu gwella.

I gael mwy o wybodaeth am archwiliadau dirybudd ar hap AGIC ynglŷn ag urddas a pharch yn 2009-2010, defnyddiwch y ddolen ganlynol:

<http://www.hiw.org.uk/page.cfm?orgid=477&pid=47582>

Yn 2011, datblygodd AGIC raglen newydd o archwiliadau ar hap gan ganolbwyntio ar y gofal hanfodol, y diogelwch, yr urddas a'r parch a dderbynnir gan gleifion yn yr ysbyty.

Adolygwyd nifer o adroddiadau allanol sydd wedi eu cyhoeddi gan sefydliadau megis Cymdeithas y Cleifion, Ombwdsmon Gwasanaethau **Cyhoeddus** Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â gwybodaeth oddi wrth y cyhoedd ac o arolygiadau blaenorol AGIC. Ar sail y wybodaeth hon, rydym wedi datblygu methodoleg arolygu sy'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Amgylchedd y claf.
- Agwedd/ ymddygiad/ gallu staff o ran darparu gofal ag urddas.
- Cynllunio a darparu gofal.

- Briwiau pwysu.
- Hylif a maeth.
- Gofal personol a hylendid.
- Anghenion o ran mynd i'r tŷ bach.
- Seinyddion.
- Cyfathrebu.
- Rheoli meddyginiaeth a rheoli poen.
- Rheoli cofnodion.
- Rheoli cleifion sy'n ddryslyd.
- Gweithgareddau a symbyliad.
- Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Mae'r arolygiadau hyn wedi eu cynllunio i adolygu'r gofal a'r driniaeth a dderbynnir gan bob claf yn yr ysbyty, yn enwedig cleifion hŷn y mae ymchwil wedi profi y gallant fod yn arbennig o agored i niwed tra eu bod yn aros yn yr ysbyty.

Yr Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol

Dechreuwyd cynnal rhaglen 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' AGIC ym mis Tachwedd 2011 pryd y cynhaliwyd arolygiad peilot yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd.

Mae'r tîm arolygu yn cynnwys un o arolygwyr AGIC, dwy nyrs brofiadol sy'n ymarfer ac adolygwr 'lleyg'.

Mae'r tîm adolygu yn defnyddio nifer o ddulliau arolygu i gynorthwyo i gasglu gwybodaeth am ward mewn ysbyty. Yn ystod yr ymweliadau, bydd y tîm yn arsylwi, yn siarad â chleifion, gofalwyr a pherthnasau ac yn edrych ar gofnodion iechyd. Mae'r dulliau arolygu a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol i'w gweld ar ein gwefan:

<http://www.hiw.org.uk/page.cfm?orgid=477&pid=57445>

Ar ôl i ysbyty gael ei arolygu, caiff adroddiad ei lunio a'i gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd, ac yna, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu cynllun gweithredu i AGIC i fynd i'r afael â'r prif faterion a amlygwyd.

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer pob gwasanaeth gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Wneud cyfraniad sylweddol i wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru pa un ai fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalydd, perthynas neu weithiwr cyflogedig.
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd yr adolygir gwasanaethau iechyd.
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, berthnasol a rhwydd cael gafael arni am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Prif swyddogaeth AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd, Llywodraeth Cymru a darparwyr gofal iechyd bod y gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd da.

Adolygir gwasanaethau yn unol ag amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Yn rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a'r camau sydd eu hangen i'w cyflawni. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal ymchwiliadau ac adolygiadau arbennig pan ymddengys bod methiannau systematig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau ac y dysgir gwersi'n gyflym. Rydym hefyd yn diogelu buddiannau pobl y cyfyngir ar eu hawliau dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Yn ogystal, AGIC yw'r rheoleiddiwr ar gyfer darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru a'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwragedd.

Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hannibyniaeth weithredol. Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.
- Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig.
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Iechyd Meddwl 2007.
- Goruchwyliaeth Statudol Bydwagedd fel y'i nodir yn Erthyglau 42 a 43 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.
- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygio 2006.

Mae AGIC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill wrth gynnal adolygiadau traws-sector ym meysydd gofal cymdeithasol, addysg a chyfiawnder troseddol, ac wrth ddatblygu dulliau mwy cymesur a chydgysylltiol o adolygu a rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn un o 18 o sefydliadau'r DU a ddynodwyd, ar y cyd, gan Lywodraeth y DU yn 'Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol' dan y Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn Erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol arall, er mwyn archwilio'r modd y caiff pobl sydd wedi colli eu rhyddid eu trin, a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

Themâu Urddas a Gofal Hanfodol, Hawliau Dynol a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Mae'r ddogfen hon yn dangos sut y mae'r themâu a adolygir yn ystod arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol yn cyd-fynd â 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru' a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Thema Urddas a Gofal Hanfodol Amgylchedd y Ward

Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).

Agwedd, Ymddygiad a Gallu'r Staff i Ddarparu Gofal ag Urddas

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14).

Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru **12. Yr Amgylchedd**

Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau er mwyn darparu amgylcheddau sydd:

- d) yn ddiogel a sicr;
- e) yn diogelu preifatrwydd.

2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael:

- a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.

10. Urddas a Pharch

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion a dewisiadau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion, ac yn sicrhau bod eu hawl i urddas a pharch yn cael ei diogelu a'i bodloni.

26. Hyfforddi'r Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol

Mae cyrff a gwasanaethau yn sicrhau bod eu gweithlu yn cael cymorth priodol i'w galluogi:

- a) i gynnal a datblygu cymwyseddau er mwyn iddynt gyrraedd eu holl botensial;
- b) i gymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol;
- c) i gael arfarniad personol blynyddol a chynllun datblygu personol i'w galluogi i ddatblygu eu rôl;
- d) i ddangos eu bod yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus; ac
- e) i gael cyfleoedd i ddatblygu eu harferion cydweithredol a'u sgiliau gweithio mewn tîm.

Rheoli Cleifion Dryslud neu Sydd â Dementia

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).

Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14).

2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael:

- a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.

8. Cynllunio a Darparu Gofal

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:

a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.

Cynllunio a Darparu Gofal

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).

Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14).

Yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10).

7. Gofal sy'n Ddiogel ac yn Glinigol Effeithiol

Bydd cyrff a gwasanaethau yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn cael triniaeth a gofal diogel ac effeithiol:

a) sy'n seiliedig ar arferion gorau a chanllawiau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys y rhai a nodir yn y Fframweithiau Gwasanaethau Cenedlaethol, ac yng nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE), yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA), a chyrff proffesiynol;

b) sy'n cydymffurfio o'r cychwyn â chyfarwyddebau diogelwch a chlinigol; ac

c) a amlygir gan weithdrefnau ar gyfer cofnodi ac archwilio cydymffurfiaeth a diffyg cydymffurfiaeth ag unrhyw un o'r uchod.

8. Cynllunio a Darparu Gofal

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:

- a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau;
- b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ail-alluogi; a
- c) thrwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau a chyrff eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.

Cyfathrebu

Yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10).

Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14).

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).

2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael:

- a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.

9. Gwybodaeth a Chaniatâd Cleifion

Bydd cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:

- a) drwy roi gwybodaeth hygyrch iddynt yn brydlon am eu cyflwr, eu gofal, eu meddyginiaeth, eu triniaeth a'u trefniadau cymorth;
- b) drwy ddarparu cyfleoedd i drafod a chytuno ar opsiynau;
- c) drwy drin eu gwybodaeth yn gyfrinachol;
- d) drwy sicrhau eu bod yn cael digon o wybodaeth cyn rhoi caniatâd, yn unol â'r arferion gorau; a
- e) drwy eu hasesu a'u gwarchod yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 pan fydd yn briodol.

18. Cyfathrebu Effeithiol

Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth effeithiol, hygyrch, priodol a phrydlon:

- b) â chleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a staff gan ddefnyddio ystod o gyfryngau a fformatiau priodol;
- c) ynghylch cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr;
- e) gan ymateb i anghenion ieithyddol ac anghenion cyfathrebu pawb.

Hylif a Maeth

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

14. Maeth

Bydd cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau:

- a) bod anghenion unigol cleifion a defnyddwyr gwasanaeth o ran maeth a hylif yn cael eu hasesu, eu cofnodi a'u diwallu;
- b) bod unrhyw gymorth sydd ei angen o fwyta ac yfed neu i fwydo a llyncu yn cael ei nodi a'i ddarparu;

Ile y darperir bwyd a diod:

- d) y cynigir dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n diwallu anghenion maethol, therapiwtig, crefyddol a diwylliannol pawb; ac
- e) y bydd bwyd a diod ar gael 24 awr y dydd.

Briwiau Pwysu

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

8. Cynllunio a Darparu Gofal

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:

- a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei ddarparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.

Gofal Personol a Hylendid

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael:

a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.

10. Urddas a Pharch

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion a dewisiadau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion, ac yn sicrhau bod eu hawl i urddas a pharch yn cael ei diogelu a'i bodloni.

8. Cynllunio a Darparu Gofal

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofawlyr:

a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau;

b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ail-alluogi.

Anghenion o ran mynd i'r tŷ bach

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael:

a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.

8. Cynllunio a darparu gofal

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:

a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau;
b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ail-alluogi.

10. Urddas a pharch

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion a dewisiadau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbryddol unigolion, ac yn sicrhau bod eu hawl i urddas a pharch yn cael ei diogelu a'i bodloni.

Seinyddion

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).

7. Gofal sy'n ddiogel ac yn glinigol effeithiol

Bydd cyrff a gwasanaethau yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn cael triniaeth a gofal diogel ac effeithiol:

b) sy'n cydymffurfio o'r cychwyn â chyfarwydddebau diogelwch a chlinigol.

8. Cynllunio a darparu gofal

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:

a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.

Rheoli meddyginiaeth a rheoli poen

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

8. Cynllunio a darparu gofal

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:

a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.

15. Rheoli meddyginiaethau

Bydd cyrff a gwasanaethau yn sicrhau:

- a) eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth, canllawiau trwyddedu a chanllawiau arferion da ar holl agweddau rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys cyffuriau a reolir;
- b) bod clinigwyr yn gymwys ac wedi'u hyfforddi i ragnodi, dosbarthu a rhoi meddyginiaethau yn eu maes ymarfer unigol; ac
- c) bod cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a staff yn cael yn brydlon gyngor a gwybodaeth briodol a hygyrch ar feddyginiaethau, ac ar adrodd am ddigwyddiadau niweidiol yn ymwneud â chyffuriau.

Rheoli cofnodion

Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).

20. Rheoli cofnodion

Mae cyrff a gwasanaethau yn rheoli eu holl gofnodion yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau eu bod:

- a) yn cael eu dylunio, eu paratoi, eu hadolygu a'u dosbarthu i ddiwallu'r anghenion gofynnol;
- b) yn cael eu storio'r ddiogel, eu cynnal yn sicr, eu hadfer yn brydlon a'u gwaredu'n briodol;
- c) yn gywir, yn gyflawn, yn ddealladwy ac yn gyfredol, yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol; a
- d) yn cael eu rhannu fel y bo'n briodol.

Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty

Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).

Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).

8. Cynllunio a darparu gofal

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofawyr:

- a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau;
- b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ail-alluogi; ac
- c) drwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau a chyrff eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.

Gweithgareddau

Yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10).

Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).

8. Cynllunio a darparu gofal

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofawyr:

- b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ail-alluogi.